OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 191

# Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018

## RHAN 4

## CYSYNIADAU ALLWEDDOL

### PENNOD 2

### CYMHWYSTRA

*ADRAN 3*

*Terfynu cymhwystra*

**Terfynu cymhwystra yn gynnar**

**19.**—(1) Mae cyfnod cymhwystra myfyriwr cymwys ("P") yn terfynu ar ddiwedd y diwrnod—

(a) pan fydd P yn tynnu'n ôl o'i gwrs dynodedig ac nad yw Gweinidogion Cymru yn trosglwyddo statws P fel myfyriwr cymwys o dan reoliad 28, neu

(b) pan fydd P yn cefnu ar ei gwrs dynodedig neu'n cael ei ddiarddel ohono.

(2) Pan—

(a) bo cwrs dynodedig myfyriwr cymwys ("P") yn gwrs dysgu o bell, a

(b) bo P yn ymgymryd â'r cwrs y tu allan i'r Deyrnas Unedig,

mae cyfnod cymhwystra P yn terfynu ar ddechrau'r diwrnod cyntaf pan fo P yn ymgymryd â'r cwrs y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

(3) Ond nid yw paragraff (2) yn gymwys pan fo P yn ymgymryd â chwrs dysgu o bell y tu allan i'r Deyrnas Unedig oherwydd bod P neu berthynas agos i P yn gwasanaethu fel aelod o'r lluoedd arfog.

**Camymddwyn a methu â darparu gwybodaeth gywir**

**20.**—(1) Caiff Gweinidogion Cymru derfynu cyfnod cymhwystra myfyriwr cymwys os ydynt wedi eu bodloni bod ymddygiad y myfyriwr o'r fath fel nad yw'r myfyriwr yn addas mwyach i gael cymorth.

(2) Mae paragraff (3) yn gymwys os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod myfyriwr cymwys—

(a) wedi methu â chydymffurfio â gofyniad i ddarparu gwybodaeth neu ddogfennaeth o dan y Rheoliadau hyn, neu

(b) wedi darparu gwybodaeth neu ddogfennaeth a oedd yn sylweddol anghywir.

(3) Pan fo'r paragraff hwn yn gymwys, caiff Gweinidogion Cymru—

(a) terfynu cyfnod cymhwystra'r myfyriwr;

(b) penderfynu nad yw'r myfyriwr yn cymhwyso i gael categori penodol o gymorth neu swm y cymorth hwnnw.

**Adfer cymhwystra ar ôl iddo derfynu**

**21.**—(1) Pan fo cyfnod cymhwystra myfyriwr yn terfynu o dan reoliad 19 neu 20 yn ystod y flwyddyn academaidd y mae'r myfyriwr yn cwblhau'r cwrs presennol ynddi, caiff Gweinidogion Cymru adfer cyfnod cymhwystra'r myfyriwr am unrhyw gyfnod y maent yn meddwl ei fod yn briodol.

(2) Ond ni chaniateir i gyfnod cymhwystra sydd wedi ei adfer estyn y tu hwnt i ddiwedd y cyfnod cymhwystra hwyaf a gyfrifir yn unol ag Adran 2 o'r Bennod hon.

**Ffoaduriaid y mae eu caniatâd i aros wedi dod i ben**

**22.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys—

(a) pan oedd person ("P") yn fyfyriwr cymwys Categori 2 (gweler Atodlen 2) mewn cysylltiad â chais am gymorth—

(i) ar gyfer blwyddyn gynharach o'r cwrs presennol,

(ii) ar gyfer cwrs llawnamser y mae'r cwrs presennol yn gwrs penben llawnamser mewn perthynas ag ef, neu

(iii) ar gyfer cwrs y mae statws P fel myfyriwr cymwys wedi cael ei drosglwyddo ohono i'r cwrs presennol o dan reoliad 28 neu baragraff 7 o Atodlen 5, a

(b) pan, ar ddiwedd y diwrnod cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd y mae P yn gwneud cais am gymorth mewn cysylltiad â hi, fo statws ffoadur—

(i) P, neu

(ii) y person yr oedd ei statws fel ffoadur yn golygu bod P yn fyfyriwr cymwys Categori 2,

wedi dod i ben ac nad yw caniatâd pellach i aros wedi cael ei roi ac nad oes apêl yn yr arfaeth (o fewn ystyr adran 104 o Ddeddf Cenedligrwydd, Mewnfudo a Lloches 2002)(**1**).

(2) Pan fo'r rheoliad hwn yn gymwys, mae statws P fel myfyriwr cymwys yn terfynu yn union cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd y mae P yn gwneud cais am gymorth mewn cysylltiad â hi.

(3) Yn y rheoliad hwn, mae i "ffoadur" yr ystyr a roddir gan baragraff 11 o Atodlen 2.

**Personau eraill y mae eu caniatâd i ddod i mewn neu i aros wedi dod i ben**

**23.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys—

(a) pan oedd person ("P") yn fyfyriwr cymwys Categori 3 (gweler Atodlen 2) mewn cysylltiad â chais am gymorth—

(i) ar gyfer blwyddyn gynharach o'r cwrs presennol,

(ii) ar gyfer cwrs llawnamser y mae'r cwrs presennol yn gwrs penben llawnamser mewn perthynas ag ef, neu

(iii) ar gyfer cwrs y mae statws P fel myfyriwr cymwys wedi cael ei drosglwyddo ohono i'r cwrs presennol o dan reoliad 28 neu baragraff 7 o Atodlen 5, a

(b) pan, ar ddiwedd y diwrnod cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd y mae P yn gwneud cais am gymorth mewn cysylltiad â hi, fo'r cyfnod y caiff—

(**1**) 2002 p. 41. Diwygiwyd adran 104 gan Ddeddf Lloches a Mewnfudo (Trin Ceiswyr etc.) 2004 (p. 19), Atodlenni 2 a 4, Deddf Mewnfudo, Lloches a Chenedligrwydd 2006 (p. 13), adran 9, O.S. 2010/21, Deddf Mewnfudo 2014 (p. 22), Atodlen 9.

(i) P, neu

(ii) y person, oherwydd bod ganddo ganiatâd i ddod i mewn neu i aros, a oedd yn peri i P fod yn fyfyriwr cymwys Categori 3,

aros yn y Deyrnas Unedig wedi dod i ben ac nad yw caniatâd pellach i aros wedi cael ei roi ac nad oes apêl yn yr arfaeth (o fewn ystyr adran 104 o Ddeddf Cenedligrwydd, Mewnfudo a Lloches 2002).

(2) Pan fo'r rheoliad hwn yn gymwys, mae statws P fel myfyriwr cymwys yn terfynu yn union cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd y mae P yn gwneud cais am gymorth mewn cysylltiad â hi.